

# Coedwigoedd Glaw Berwr (Cress)

Arbrawf gwyddonol i ddangos effaith datgoedwigo ar y pridd

## Byddwch angen:

- Compost hadau pridd llwyd John Innes
- 4 bwrdd neu sgwâr solid cadarn o blastig (bydd angen iddynt gael eu cario allan yn nes ymlaen)
- Chwistrellwr dŵr
- 2 becyn o hadau berwr
- Siswrn
- Caniau dŵr â thyllau dyfrio mân

## Beth i'w wneud

Bydd disgyblion yn gwneud pedwar mynydd allan o gompost a'u plannu nhw gyda hadau berwr. Ar ôl tuag wythnos, pan fydd y berwr wedi tyfu, byddant yn rhoi dŵr iddynt gyda chaniau dŵr, i weld effaith dŵr ar briddoedd a blannwyd mewn ffyrdd gwahanol.

## Prawf teg

Yr hadau berwr fydd y newidyn.

## Rhywfaint o awgrymiadau:

- Tynnwch gylch ar bob bwrdd fel bod yr holl fryniau'r un maint
- Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw lymphiau yn y compost
- Pwyswch y compost
- Lle mae'r berwr yn cael ei hau, heuwch ef yn drwchus
- Rhowch ddŵr i'r mynyddoedd bob dydd gyda'r un faint o ddŵr yn y chwistrellwr





# Maint Cymru

## Cyfnod Allweddol Dau



- Gwnewch yn siŵr bod y mynyddoedd yn cael yr un faint o olau wrth dyfu

### Heuwch yr hedyn fel a ganlyn:

			
Mynydd 1 drosto'i gyd	Mynydd 2 dim o gwbl	Mynydd 3 dros un hanner yn unig	Mynydd 4 drosto'i gyd

Unwaith y bydd yr hedyn wedi tyfu, torrwrch y berwr ar fynydd 4 i gynrychioli datgoedwigo.

Rhowch ddŵr i bob mynydd yn ei dro, yn defnyddio'r un faint o ddŵr, a daliwch y can dŵr ar yr un uchder ar gyfer pob mynydd. Mae hyn yn cynrychioli'r glaw.

Gofynnwch i'r disgyblion arsylwi, cofnodi a thrafod beth sy'n digwydd. Gallent dynnu lluniau neu ffilmiau o'r broses.

### Beth allwch chi ei ddisgwyl?

### **Mynydd 1 Y mynydd coedwig law - mae ganddo'i holl goed o hyd**

Mae'r canopi o ddail yn atal y glaw rhag taro'r pridd, felly bydd braidd dim erydiad. Bydd y gwreiddiau hefyd yn dal y pridd, ond efallai na fydd disgyblion yn sylwi ar hyn eto.

### **Mynydd 2 Y mynydd wedi'i ddatgoedwigo - mae'r coed a'r gwreiddiau wedi'u clirio i gyd**

Bydd y mynydd yn golchi i ffwrdd gan nad oes dim i ddal y pridd.

### **Mynydd 3 Y mynydd wedi'i ddatgoedwigo'n rhannol**

Bydd tirlithriad ar yr ochr o'r mynydd sydd heb ei blannu, gan adael gwreiddiau'r hanner wedi'i blannu yn hollol yn y golwg. Mae hyn yn dangos sut mae'r gwreiddiau hefyd yn dal y pridd yn ei le.

### **Mynydd 4 Y mynydd wedi'i gynaeafu**

Mae'r coed wedi cael eu torri i lawr ac mae'r gwreiddiau yn dal i fod yno i ddal y pridd, ond mae'r canopi wedi mynd, felly bydd rhywfaint o erydiad. Fodd bynnag, wrth i'r gwreiddiau farw, byddant yn llai abl i ddal gafael ar y pridd.

## **Ôl-ffeithiau Datgoedwigo**

The canopy of trees helps to keep the forest warm at night and stops it getting too hot during the day. The loss of the canopy can be harmful to animals and plants as the temperatures change.

Some people have lived in or near rainforests for generations and depend on it for food and medicines. When the forest is cut down they can lose everything, including their homes.

Sometimes people may lose their homes in a landslide, as pupils will have observed in Mountain 3 or 4. This has historically been a particular problem

in Mbale, Uganda, where Size of Wales has one of their projects.

Trees take in carbon dioxide - the main greenhouse gas causing global warming. Fewer forests can mean larger amounts of greenhouse gases remaining in the atmosphere and increased speed and severity of climate change.

The soil can be dried out by the sun and turned into a desert if trees are cut down. Mae canopi'r coed yn helpu i gadw'r goedwig yn gynnes yn y nos ac yn ei hatal rhag mynd yn rhy boeth yn ystod y dydd. Gall colli'r canopi fod yn niweidiol i anifeiliaid a phlanhigion wrth i'r tymereddau newid.

Mae rhai pobl wedi byw yn, neu'n agos i goedwigoedd glaw am genedlaethau, ac yn dibynnu arnynt am fwyd a meddyginiaethau. Pan fydd y goedwig yn cael ei thorri i lawr, gallant golli popeth, gan gynnwys eu cartrefi.

Weithiau, gall pobl golli eu cartrefi mewn tirlithriad, fel y bydd disgyblion wedi ei weld gyda Mynydd 3 neu 4. Yn hanesyddol, mae hyn wedi bod yn broblem benodol ym Mbale, Uganda, lle mae Maint Cymru yn cefnogi prosiect. Mae coed yn amsugno carbon deuocsid - y prif nwy tŷ gwydr sy'n achosi cynhesu byd-eang. Mae llai o goedwigoedd yn golygu bod meintiau mwy o nwyon tŷ gwydr ar ôl yn yr atmosffer, a bod newid yn yr hinsawdd yn newid yn gyflymach ac yn fwy difrifol.

Gall y pridd gael ei sychu gan yr haul a'i droi'n anialwch os bydd coed yn cael eu torri i lawr.